



# **POLISI CEFNOGI CYFLAWNIAD LLEIAFRIFOEDD ETHNIG YR AWDURDOD LLEOL**

**Gweithio i wella cyrhaeddiad disgyblion y lleiafrifoedd  
ethnig a du a'r rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol  
iddynt**



**Neath Port Talbot**  
**Castell-nedd Port Talbot**  
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

## CYNNWYS

RHAGARWEINIAD	3
CYD-DESTUN	3/4
NODAU	5
ROLAU A CHYFRIFIOLDEBAU	5
• YR AWDURDOD LLEOL 5/6	
• YSGOLION	7
ASESU A CHAMAU CAFFAEL IAITH LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU	7/8/9
DISGYBLION SIY AG ADY A DISGYBLION MWY GALLUOG A THALENTOG	9
GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH	9
ARWEINIAD YCHWANEGOL I YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD	10
DARLLEN PELLACH/GWYBODAETH	10
GRWPYAU A CHYMDEITHASAU CYMUNEDOL	11
RHESTR O WEFANNAU DEFNYDDIOL	11



## **Rhagarweiniad**

Mae'r polisi hwn ar gyfer disgyblion y Lleiafrifoedd Ethnig (LIE), sydd efallai'n tangyflawni a disgyblion y mae ganddynt iaith gartref wahanol i'r Gymraeg neu'r Saesneg ac sydd yn y broses o ddysgu i ddefnyddio Saesneg fel iaith Ychwanegol (SIY) yn ysgolion Castell-nedd Port Talbot. Drwy gydol y polisi hwn, cyfeirir at y disgyblion hyn fel disgyblion LIE/SIY.

## **Cyd-destun**

Mae Cynllun Cymunedol 2010-20 a Chynllun Plant a Phobl Ifanc CNPT, yn cyfleu'n glir y dylai pob dinesydd yng Nghastell-nedd Port Talbot gael ei annog i chwarae rhan er mwyn gwneud ein cymunedau'n lleoedd gwell i fyw, gweithio ac ymweld â nhw i ni a chenedlaethau'r dyfodol. Dylai addysg wella cyflawniadau, cyfleoedd diwylliannol a hamdden, dysgu gydol oes a hyfforddiant sgiliau. Mae addysg yn ganolbwynt datblygu cymunedol, mae'n rhaid i ni weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau a gwasanaethau eraill i helpu i lunio'r dyfodol.

Mae dyletswydd gyfreithiol ar ysgolion ac awdurdodau lleol, o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i gyflawni'r safonau uchaf posib ac yn gadael yr ysgol yn barod ar gyfer cam nesaf ei addysg neu hyfforddiant.

Yn ganolog i'r ddyletswydd hon ceir y gofyniad i gasglu a dadansoddi cyrhaeddiad a data arall fesul grŵp ethnig, a gosod strategaethau yn eu lle, gan gynnwys pennu targedau a monitro cau bylchau cyflawniad.

Mae'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer ein plant iau yn rhoi mwy o bwyslais ar ddathlu gwahaniaethau a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth plant

o amrywiaeth hiliol, diwylliannol a chrefyddol er mwyn gwella eu dealltwriaeth o ddylanwad aml-ddiwylliant wrth lunio ein cymdeithas.

Noda'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (2008) mai un o ddibenion ysgol yw "hyrwyddo diwylliant o gynhwysiad cymdeithasol a pharchu amrywiaeth, yn enwedig drwy ddatblygu lles dysgwyr a phersonoli eu dysgu.

Mae Cynllun Plant a Phobl Ifanc CNPT 2008/2011 yn pwysleisio nodau craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc - sef y gwrandewir arnynt, cânt eu trin â pharch, a chydabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol. Mae'r bartneriaeth yn ymrwymedig i werthfawrogi amrywiaeth a hybu cyfle cyfartal.

Yng Nghastell-nedd Port Talbot daw disgyblion LIE/SIY o ystod o gefndiroedd ethnig ac ieithyddol. Mae niferoedd a phrif grwpiau, y daw disgyblion LIE/SIY ohonynt, yn gyson newid. Rhaid i'r Awdurdod Lleol ac ysgolion felly fod yn ymwybodol o'r lefelau angen newidiol a'r blaenoriaethau wrth ddefnyddio'r gefnogaeth sydd ar gael.

Mae dros 900 o ddisgyblion (4.4% o boblogaeth ysgolion CNPT) wedi nodi eu bod yn dod o gefndir LIE neu bod SIY iddynt. Mae mwy na 41% o'r disgyblion hyn wedi'u nodi fel SIY.

Yn CNPT, siaredir 47 iaith gan ddisgyblion SIY, gan gynnwys:

Bengaleg/Sylheti  
Mandarin/Cantoneg  
Pwyleg  
Tagalog  
Pwnjabeg  
Thai  
Wrdw  
Tamil

Daw disgyblion CNPT o gefndiroedd ethnig gwahanol, mae'r rhain yn cynnwys:

Gwyn/Du Caribiaidd  
Gwyn/Asiaidd

Indiaidd  
Bangladeshi a Tsieineaidd

Mae'n bwysig peidio â chyffredinoli am ddisgyblion, y cymunedau y dônt ohonynt a'u hanghenion.

Efallai bydd rhai disgyblion LIE/SIY yn cyrraedd yr ysgol wedi dod i gysylltiad â'r iaith Saesneg a'r diwylliant lleol, bydd y pethau hyn yn newydd i eraill. Gallai hyn fod yn berthnasol i rai disgyblion LIE/SIY a anwyd yn y DU. Efallai bydd disgyblion sydd newydd gyrraedd wedi datblygu sgiliau llythrennedd yn eu hiaith enedigol ac yn meddu ar addysg debyg i'w cyfoedion. Efallai bydd disgyblion SIY eraill wedi profi addysg fylchog neu ddim addysg flaenorol.

## **Nodau**

Nod Castell-nedd Port Talbot yw cefnogi ysgolion wrth

- gyflawni eu cyfrifoldebau i ddysgwyr LIE/SIY o ran eu hawl i fynediad cyfartal i'r cwricwlwm a gwella cyrhaeddiad y disgyblion i sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial
- fod yn rhagweithiol i ddileu rhwystrau i ddysgu a llwyddiant disgyblion LIE/SIY
- darparu disgyblion LIE/SIY ag amgylchedd diogel, croesawgar a magwraeth, lle maent yn cael eu gwerthfawrogi a'u hannog i gymryd rhan lawn mewn cymuned lle caiff amrywiaeth diwylliannol ei ddathlu.
- gyflawni nodau craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyfrifoldebau penodol o dan y canlynol:
  - Deddf Cydraddoldeb 2010
  - Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000
  - Deddf Hawliau Dynol 2000
  - Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion 2010

- Arweiniad atodol ESTYN ar arolygu cydraddoldeb hiliol, hyrwyddo perthnasoedd da a Saesneg fel Iaith Ychwanegol Medi 2010

## **Rolau a Chyfrifoldebau**

### **Awdurdod Lleol**

Bydd ALI Castell-nedd Port Talbot yn rhoi cyngor ac arweiniad i gynorthwyo ysgolion i gyflawni eu cyfrifoldebau. Mae Tîm Cefnogi Cyflawniad y Lleiafrifoedd Ethnig (MEAS) yn rhan o Wasanaeth Datblygu Cynhwysiad Addysg (EDIS), ac fe'i hariennir gan Grant Cyflawniad y Lleiafrifoedd Ethnig (MEAG).

Mae'r tîm MEAS yn gweithio gydag ysgolion i'w helpu i ddatblygu dull ysgol gyfan i ddiwallu anghenion eu disgyblion LIE/SIY. Bydd MEAS yn:

- Cwrdd i ddechrau ag aelod o'r Uwch-dîm Rheoli i edrych ar anghenion ysgol a pholisi ysgol gyfan ar gyfer disgyblion LIE/SIY
- Cefnogi athrawon prif ffrwd i wella eu darpariaeth ar gyfer disgyblion LIE/SIY a helpu i ddatblygu ymwybyddiaeth diwylliannol a dealltwriaeth er mwyn hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang.
- Cynorthwyo i gasglu'r arolwg Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig blynyddol (tymor yr hydref)
- Cefnogi ysgolion â'r broses asesu, gan sicrhau bod disgyblion LIE/SIY yn cael y cam cywir ar gyfer Saesneg (Camau Saesneg LIE/SIY Llywodraeth Cynulliad Cymru)
- Cefnogi a chynghori ar weithio gyda disgyblion LIE/SIY, gan awgrymu strategaethau a thargedau i sicrhau bod disgyblion yn cyrchu'r cwricwlwm.
- Hyrwyddo hyfforddiant staff priodol (gan gynnwys sesiynnau ADDs, HMS a chyrsgiau byr) i fynd i'r afael ag anghenion ysgolion/disgyblion
- Benthgyn adnoddau addysgu dwyieithog
- Cynghori ar brynu adnoddau addysgu i LIE/SIY

- Hybu'r cyswllt cartref/ysgol Gall aelodau'r tîm gefnogi cyfarfodydd sefydlu gyda disgyblion newydd a'u teuluoedd/gofalwyr a chyfarfodydd eraill gydag athrawon.
- Darparu gwybodaeth am ieithoedd lleiafrifol ac o ble y daw y plant newydd
- Cynghori ar ddehongli a chyfieithu a threfnu cyfieithydd lle bynnag y bo'n bosib.
- Darparu deunydd arwain ychwanegol i ysgolion cynradd ac uwchradd (gweler tudalen 10).

## Ysgolion

### **Mae ganddynt gyfrifoldeb i wneud y canlynol:**

- Creu, gweithredu a monitro Polisi Cydraddoldeb Hiliol
- Ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau hiliol a defnyddio gweithdrefnau cytunedig yr Awdurdod Lleol (ALI) i sicrhau y dywedir wrth yr ALI am bob achos.
- Sicrhau bod anghenion disgyblion y grwpiau LIE/SIY yn cael eu hystyried yn y Cynllun Datblygu Ysgolion a bod polisi sy'n cefnogi disgyblion LIE/SIY
- Darparu amgylchedd diogel sy'n galluogi dysgwyr o grwpiau'r lleiafrifoedd ethnig i gyflawni eu potensial llawn.
- Datblygu ethos lle mae amrywiaeth yn cael ei barchu a'i werthfawrogi, ei hyrwyddo a'i ddathlu
- Nodi dysgwyr o'r grwpiau LIE/SIY a phennu targedau heriol ar gyfer eu cyflawniad.
- Gwneud defnydd effeithiol o ddata, nodi grwpiau ac unigolion sydd mewn perygl o dangyflawni a datblygu strategaethau priodol er mwyn ymateb i hyn
- Monitro cynnydd disgyblion a gwerthuso'n fanwl effeithiolrwydd y strategaethau a roddwyd ar waith
- Rhoi rhaglenni datblygiad proffesiynol priodol ar waith i staff a sicrhau bod yr ysgol gyfan yn elwa ar gyrsiau datblygiad proffesiynol LIE/SIY a ddarperir yn allanol i'r ysgol
- Gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni, cymunedau lleiafrifol a'r ALI, i gefnogi ac ehangu dysgu'r disgyblion



- Sicrhau bod gweithdrefnau effeithiol yn eu lle ar gyfer disgyblion LIE/SIY sy'n trosglwyddo o ysgol i ysgol.

## **Asesu**

Gall MEAS gefnogi athrawon i asesu disgyblion SIY gan ddefnyddio Model 5 Cam Caffael SIY Llywodraeth Cynulliad Cymru. Drwy olrhain cyflawniad hefyd ym mhob asesiad ysgol a roddir i ddisgyblion LIE/SIY a'u cyfoedion uniaith, bydd ysgolion yn sicrhau bod disgyblion LIE/SIY yn cael eu monitro am dangyflawni posib.

### **Model 5 Cam Caffael SIY Llywodraeth Cynulliad Cymru**

Gall disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt gymryd hyd at 2 flynedd i ddatblygu Saesneg sgyrsiol/rhuglder cymdeithasol. Serch hynny, gall gymryd hyd at 5 i 7 mlynedd i ddatblygu rhuglder academiaidd yn Saesneg y gellir ei gymharu â chyfoedion uniaith. Ledled Cymru defnyddir model 5 cam syml caffael Saesneg i ddisgrifio gallu disgybl yn Saesneg. Mae hwn yn fodel 'ffit orau' i ddarparu model syml a chyson i ni ei ddefnyddio wrth wneud asesiadau cyffredinol.

Efallai y bydd disgyblion ar un cam ar gyfer siarad a gwranddo ac ar un arall am ddarllen ac ysgrifennu. Mae disgrifiadau manylach, gyda phennu targedau, strategaethau ac adnoddau awgrymedig ar gael gan y tîm MEAS, y gellir eu defnyddio ar gyfer asesu ffurfiannol. Mae'n holl bwysig bod disgyblion yn cael eu hannog i gynnal eu hiaith gyntaf er mwyn sicrhau eu bod yn dysgu unrhyw iaith/ieithoedd ychwanegol yn llwyddiannus. Gall disgyblion newydd fynd drwy "gyfnod tawel", lle maent yn ceisio deall yr iaith a'r cysyniadau newydd.

#### ***A. Newydd i Saesneg***

Efallai y bydd yn defnyddio iaith gyntaf ar gyfer dysgu a dibenion eraill.

Efallai y bydd yn dawel yn yr ystafell ddosbarth.

Efallai y bydd yn copïo/ailadrodd rhai geiriau a brawddegau.

Efallai y bydd yn deall rhai ymadroddion Saesneg bob dydd ond heb lawer o lythrennedd Saesneg neu ddim o gwbl.

Angen cefnogaeth sylweddol.

#### ***B. Caffael cynnar***

Efallai y bydd yn dilyn cyfathrebu cymdeithasol o ddydd i ddydd yn Saesneg.

Dechrau defnyddio Saesneg llafar at ddibenion cymdeithasol.

Efallai y bydd yn deall cyfarwyddiadau syml ac yn gallu dilyn naratif/adroddiadau gyda chefnogaeth weledol.

Efallai y bydd wedi datblygu rhai sgiliau darllen ac ysgrifennu

Efallai y bydd wedi ymglyfarwyddo â pheth geirfa benodol pynciau. Mae angen cefnogaeth arwyddocaol arno o hyd.

### ***C. Datblygu Cymhwysedd***

Efallai y bydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu gyda

mwy a mwy o annibyniaeth. Yn gallu mynegi ei hun ar lafar yn

Saesneg ond mae gwallau strwythurol yn dal i fod yn amlwg.

Mae llythrennedd yn galw am gefnogaeth barhaus, yn arbennig ar gyfer deall testun ac ysgrifennu.

Efallai y bydd yn gallu dilyn cysyniadau haniaethol ac ysgrifennu

Saesneg mwy cymhleth.

Angen cefnogaeth i gyrchu'r cwricwlwm yn llawn.

### ***Ch Cymwys***

Saesneg llafar yn datblygu'n dda, gan ganiatáu ymrwymiad

llwyddiannus mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm.

Yn gallu darllen a deall amrywiaeth eang o destunnau.

Efallai gall Saesneg ysgrifenedig fod â diffyg cymhlethdod a chynnwys ychydig dystiolaeth o wallau mewn strwythur.

Angen cefnogaeth i gael naws cynil ystyr, i fireinio ei ddefnydd o'r

Saesneg, ac i ddatblygu haniaethu.

### ***D. Rhugl***

### **Disgyblion LIE/SIY ag Anghenion Addysgol Ychwanegol (AAY) a Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog**

Nid oes gan y rhan fwyaf o ddisgyblion LIE/SIY y mae angen

cefnogaeth ychwanegol arnynt anghenion AAY. Dylai athrawon

ddisgwyl yr un ganran o ddisgyblion LIE/SIY i gyflwyno AAY â'r

garfan ysgol gyffredinol. Fodd bynnag, os bydd AAY yn cael ei nodi

yn ystod asesiad, bydd disgyblion LIE/SIY yn cael mynediad cyfartal i

ddarpariaeth AAY yr ysgol. Efallai bydd rhai disgyblion LIE/SIY yn

tangyflawni mewn asesiadau safonol ysgolion nad ydynt yn ystyried gwahaniaethau diwylliannol/ieithyddol. Bydd MEAS yn rhoi arweiniad pan fydd pryderon.

Yn yr un modd, efallai bydd rhai disgyblion LIE/SIY sy'n fwy galluog a thalentog er efallai nad ydynt yn gwbl rhugl yn Saesneg.

### **Gweithio mewn partneriaeth**

Mae CBSCNPT a MEAS yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i ddatblygu ymagwedd ysgol gyfan a chymuned gyfan i gefnogi disgyblion LIE/SIY. Mae rhai ysgolion wedi cael grantiau gan y Cyngor Prydeinig i gefnogi gweithgareddau iaith a diwyllianol. Crëwyd Cymuned Ddysgu Broffesiynol i ddisgyblion LIE/SIY cynradd ac uwchradd i rannu arfer da. Crëwyd cysylltiadau da â Choleg Castell-nedd a grwpiau a chymdeithasau cymunedol lleol i gefnogi disgyblion y lleiafrifoedd ethnig a'u teuluoedd, ac mae'r rhain wedi'u rhestru ar dudalen 11.

### **Arweiniad ychwanegol i ysgolion cynradd ac uwchradd**

Gall MEAS ddarparu arweiniad ychwanegol ar gyfer gweithdrefnau sefydlu disgyblion LIE/SIY newydd mewn ysgolion, sut i gael gwasanaethau dehongli a chyfieithu a sut i gefnogi disgyblion i gyrchu'r Cwricwlwm Cenedlaethol a gwella cyflawniad disgyblion LIE/SIY.

Gellir rhoi cyngor ar gefnogi disgyblion Uwchradd sy'n sefyll TGAU mewn ieithoedd cymunedol ac mewn meysydd eraill fel pontio, cwricwlwm, dehongli a chyswllt cartref/ysgol. Derbyniwyd arian ychwanegol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop am brosiect i gefnogi disgyblion a dargedwyd (11 i 19 oed).

### **Gwybodaeth/Darllen Pellach**

- Model 5 cam Caffael Iaith manylach, gan gynnwys targedau, strategaethau ac adnoddau awgrymedig (CD-Rom)
- Taflen tîm MEAS
- Canllaw cychwynnol i ddisgyblion LIE/SIY sydd newydd gyrraedd CNPT

- Canllaw eilaidd i gefnogi disgyblion LIE/SIY CNPT (drafft)
- Polisi Model Ysgol i gefnogi disgyblion LIE/SIY CNPT
- Un Gymru, Sawl Llais, DVD i ysgolion ar ddiwallu anghenion disgyblion o gefndiroedd y lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru
- English as an Additional Language, Meeting the Challenge in the Classroom, (2009) Haslam L et al, David Fulton Publishers
- Cynllun Cymunedol CBSCNPT 2010-20
- Cynllun Plant a Phobl Ifanc Castell-nedd Port Talbot 2008-11
- Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion 2010
- Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3-7 oed yng Nghymru 2008
- Arweiniad atodol Estyn Medi 2010
- Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot/Cytundeb Partneriaeth Ysgolion
- Polisi Cydraddoldeb Hiliol CBSCNPT
- Cofnodi Achosion Hiliol CBSCNPT

### **Grwpiau a chymdeithasau cymunedol**

Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe  
01792 457035  
E-bost: director@sbrec.org.uk

Ysgol Bwylaidd – bore dydd Sadwrn 9.30-12.30  
Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed  
Heol Caldicot  
Winch Wen  
Abertawe SA1 7HX  
Gwefan: <http://sites.google.com/site/polskaskolaswanea/>

Canolfan Gydweithredol Gymunedol Tsieineaidd Abertawe  
01792 469919  
E-bost: swanseachinese08@yahoo.co.uk

Canolfan Gymunedol Affricaniaidd  
01792 470298  
Gwefan: www.africancommunitycentre.org.uk

Teigrod Castell-nedd Port Talbot  
[www.PT-Tigers.org.uk](http://www.PT-Tigers.org.uk)

Sefydliad Anthony Walker  
Gwefan: [www.anthonywalkerfoundation.com](http://www.anthonywalkerfoundation.com)

### **Gwefannau diddorol ar gyfer adnoddau a chyfieithiadau**

Mae rhestr o wefannau a ddefnyddir yn rheolaidd gan athrawon disgyblion LIE/SIY ar gael gan MEAS

### ***Cydnabyddiaeth***

***Mae'r polisi drafft hwn yn ganlyniad cwrs byr gan MEAS i athrawon cynradd ac uwchradd CNPT ar ysgrifennu polisi LIE/SIY (30.6.10), gan weithio mewn partneriaeth â GEMS Casnewydd ac EMAS Bro Morgannwg a sawl cyfarfod gyda Chymuned Ddysgu Broffesiynol CNPT ar gyfer LIE/SIY:***

***Roz Goldman, Pennaeth Ysgol Gynradd Creunant a Chadeirydd LLAN, grŵp Penaethiaid Cynradd***

***Julie Walters, Swyddog Datblygu EDIS (Cyfnod Sylfaen)***

***Kate Key cyn-Swyddog Datblygu Athrawon EDIS (Cyfnod Sylfaen) a dirprwy bennaeth gweithredol Ysgol Gynradd Pen Afan***

***Louise Jefford, Pennaeth Ysgol Gynradd y Groes***

***Cathie Long SENCO Ysgol Gynradd y Gnoll***

***Kath Davies SENCO Ysgol Gynradd yr Henadur Davies, yr Eglwys yng Nghymru***

***Lesley Mitchell person cyswllt LIE/SIY ac athrawes, Ysgol Gynradd Ynysmaerdy***

***Ysgol Gyfun Cefn Saeson***